Archwilio Cymru
Audit Wales

Mynd i'r afael â heriau o ran y gweithlu yn GIG Cymru

Chwefror 2025



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2024

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint
dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Rhagair 4

Ffeithiau allweddol 6

Negeseuon allweddol 7

Canfyddiadau manwl 9

Argymhellion 22

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith 25

2 Dolenni i adolygiadau lleol o'r gweithlu a gyhoeddwyd 27

4 Rhagair

Afraid dweud bod staff yn ganolog i ddarparu ein gwasanaethau iechyd a gofal. Mae'r staff hynny wedi arfer ag ymateb i bwysau eang ac amrywiol, a phan gawsom ein taro gan bandemig COVID-19, yn ddieithriad fe aethant y tu hwnt i alwad dyletswydd yn ein brwydr yn erbyn y feirws. Roedd hi'n braf felly fy mod, yn fy nghyhoeddiad Gofalu am y Gofalwyr, yn gallu disgrifio'r camau gweithredu cadarnhaol a gymerwyd gan gyrff y GIG i gynnal lles staff yn ystod y pandemig.

Er bod y pandemig y tu cefn i ni bellach, gobeithio, mae'r pwysau ar y gweithlu iechyd a gofal yn dal i fodoli. Dangosodd fy adroddiad briffio ar ddata ynghylch gweithlu'r GIG fod y gweithlu, er gwaethaf lefelau uchel o fuddsoddi a thwf parhaus, yn ei chael hi'n anodd aros gyfuwch â chodiadau yn y galw am wasanaethau. Roedd yn amlygu system a oedd yn profi heriau recriwtio a chadw, gorddibyniaeth ar staff asiantaeth dros dro, materion absenoldeb oherwydd salwch ac angen am weithredu parhaus ar hyfforddiant i helpu'r system i dyfu ei chapasiti ei hun.

Mae'r heriau hyn o ran y gweithlu wedi'u cydblethu â'r heriau ariannol tra hysbys sy'n wynebu'r GIG a gwasanaethau cyhoeddus yn fwy eang. Mae hyn yn golygu bod angen i'r rhai sy'n cynllunio gwasanaethau ddiogelu ansawdd a diogelwch gwasanaethau presennol gan hefyd ystyried sut y bydd gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu yn y dyfodol er mwyn iddynt ddod yn gynaliadwy o safbwynt clinigol ac ariannol. Mae'n galw am weithredu ar lefel genedlaethol a lleol ar ffurf dull cyson a gwybodus o gynllunio'r gweithlu, ochr yn ochr â materion sy'n ymwneud â chyflog, hyfforddiant a lles staff.

Yn dilyn cyhoeddi fy adroddiad briffio ar ddata ynghylch gweithlu'r GIG, mae fy staff wedi archwilio trefniadau cynllunio'r gweithlu ym mhob un o gyrff y GIG yng Nghymru. Rwyf wedi cynhyrchu adroddiadau archwilio lleol sy'n egluro ein canfyddiadau ynghyd ag argymhellion i gefnogi gwelliannau pellach. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r negeseuon allweddol o'r archwiliadau lleol hynny, ynghyd â diweddariad ar rai ystadegau ynghylch y gweithlu ac ystyriaeth i gamau gweithredu y mae eu hangen ar lefel genedlaethol i helpu i roi'r gweithlu iechyd a gofal ar sylfaen gryfach.

Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at rai datblygiadau cadarnhaol ond hefyd at angen am weithredu pwysig mewn nifer o feysydd, yn anad dim o ran datblygu dull cenedlaethol cryfach a mwy cydlynol o gynllunio'r gweithlu. Yn fy marn i mae hyn yn hollbwysig i ddatblygu gweithlu iechyd a gofal sy'n gryf ei gymhelliant, yn gydnerth ac yn meddu ar sgiliau priodol i sicrhau ei fod yn rhoi gofal cynaliadwy o'r ansawdd gorau posibl.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ffeithiau allweddol

Fe gynyddodd costau Staff y GIG **62%** o **£3.23 biliwn** yn 2017-18 i **£5.23 biliwn** yn 2023-24

Fe leihaodd costau staff asiantaeth **20%** o **£325 miliwn** yn 2022-23 i **£262 miliwn** yn 2023-24

Fe gynyddodd niferoedd staff Cyfwerth ag Amser Llawn GIG Cymru[1] o **77,971** yn 2017-18 i **95,466** yn 2023-24

Mae **10.4%** o'r swyddi meddygol a deintyddol yn wag ar hyn o bryd. O ran y sefyllfa ym mis Mehefin 2024, mae **5,684** o swyddi gwag wedi'u nodi yn GIG Cymru ar draws yr holl grwpiau o staff

Collwyd **1.3 miliwn** o ddiwrnodau i absenoldeb oherwydd salwch yn 2023. Mae hyn yn ostyngiad, ac yn welliant o oddeutu **100,000** o ddiwrnodau a gollwyd oherwydd salwch o'i gymharu â 2022

O'r **8,180** o feddygon ar gofrestr y Cyngor Meddygol Cyffredinol ar hyn o bryd a hyfforddodd yng Nghymru'n wreiddiol, dim ond **42.8%** (3,505) sydd wedi aros yng Nghymru

1 Mae staffio Cyfwerth ag Amser Llawn yn rhoi cyfrif am weithio'n rhan amser. Pe bai dau aelod o staff yn gweithio 2.5 diwrnod yr wythnos, ar y cyd byddent yn cyfrif fel 1 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn.

4 Negeseuon allweddol

Cyd-destun

1 Ym mis Medi 2023 fe gyhoeddom ni Adroddiad Briffio ar Ddata ynghylch Gweithlu'r GIG a helpodd i ddangos, er gwaethaf twf amlwg yng ngweithlu'r GIG dros y blynyddoedd diwethaf, bod adnoddau staff y GIG wedi parhau i fod dan bwysau gyda nifer uchel o swyddi gwag, cyfraddau uchel o ran absenoldeb oherwydd salwch a throsiant staff, a dibyniaeth fawr ar staff asiantaeth i lenwi bylchau yn y gweithlu. Fe amlygom ni'r angen i Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru[2] ar gyfer y Gweithlu lywio'r gwelliannau yr oedd eu hangen yn y byrdymor yn ogystal â helpu i wireddu'r uchelgeisiau tymor hwy a nodir yn y Strategaeth 10 mlynedd ar gyfer y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

2 Ers cyhoeddi ein Hadroddiad Briffio ar Ddata, rydym wedi cwblhau adolygiadau o gynllunio'r gweithlu ym mhob un o'r 12 corff iechyd yng Nghymru ac wedi adrodd yn ôl wrth bob sefydliad ar ein canfyddiadau. Rydym hefyd wedi archwilio'r trefniadau arweinyddiaeth ar lefel genedlaethol mewn perthynas â gweithlu'r GIG. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith hwnnw ac yn nodi nifer o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru i gryfhau dulliau cenedlaethol o ddatblygu a chynllunio gweithlu'r GIG.

2 Datblygwyd Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gweithlu i gyflawni camau gweithredu ymarferol byrdymor a fydd yn gweithredu fel galluogwyr i gyflymu'r weledigaeth ddeng mlynedd yn y Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Canfyddiadau allweddol

3 Ceir tri chanfyddiad allweddol sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith:

- er bod datblygiadau cadarnhaol mewn rhai meysydd allweddol fel absenoldeb oherwydd salwch a defnyddio staff asiantaeth, mae'r GIG yn dal i wynebu heriau sylweddol o ran y gweithlu;
- mae'r dull cenedlaethol o fynd i'r afael â heriau o ran y gweithlu wedi mynd yn rhy gymhleth ac yn cael ei rwystro gan y diffyg cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu a pheth ansicrwydd ynghylch trefniadau arweinyddiaeth systemau; ac
- mae cynllunio Gweithlu'r GIG yn cael ei wneud yn anos gan ddiffyg eglurder ynghylch modelau gwasanaeth yn y dyfodol, bylchau yn y data ac arbenigedd cynllunio'r gweithlu a chyfyngiadau ar nifer y lleoedd hyfforddi y gellir eu comisiynu.

4 Caiff y canfyddiadau hyn eu nodi mewn mwy o fanylder isod. Mae **Atodiad 1** yn darparu rhagor o wybodaeth am ein gwaith. Mae **Atodiad 2** yn darparu dolenni i bob adolygiad lleol o'r gweithlu.

4 Canfyddiadau manwl

Er bod datblygiadau cadarnhaol mewn rhai meysydd allweddol fel absenoldeb oherwydd salwch a defnyddio staff asiantaeth, mae'r GIG yn dal i wynebu heriau sylweddol o ran y gweithlu

O sefyllfa anodd y llynedd, rydym wedi gweld gwelliannau mewn meysydd allweddol megis defnyddio staff asiantaeth a lefelau absenoldeb oherwydd salwch

5 Fe wnaeth ein hadolygiadau o gynllunio'r gweithlu a'n hadroddiad briffio ar ddata ynghylch y gweithlu y llynedd amlygu rhai heriau sylweddol. Gwelsom ddibyniaeth gynyddol ar ddefnyddio staff asiantaeth, gan gyrraedd gwariant uwch nag erioed o £325 miliwn yn 2022-23. Cyrhaeddodd absenoldeb oherwydd salwch frig o 6.87% yn 2022 hefyd, gan gynrychioli rhyw 1.4 miliwn o ddiwrnodau a gollwyd i salwch. Ar yr un pryd, roedd staff a oedd eisoes dan bwysau oherwydd y pandemig yn wynebu mwy o alw ac anghenion mwy cymhleth am ofal wrth i bwysau gwasanaethau arferol ailddechrau.

6 Dynododd ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf fod cyrff iechyd yn amlwg yn ymwybodol o'r risgiau o ran eu gweithlu gweithredol a'u bod yn cymryd camau gweithredu pragmatig i gefnogi gwelliant. Maent wedi gweithio i gael dealltwriaeth well am lesiant staff a chyflwyno chymorth gwell a rheolaethau gwell ar absenoldeb oherwydd salwch. Ymddengys fod y rhain ochr yn ochr â ffactorau eraill yn cael effaith gadarnhaol. Fe ostyngodd cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn 2023 i 6.12%, sy'n cyfateb i golli mwy na 100,000 yn llai o ddiwrnodau i salwch nag yn y flwyddyn flaenorol.

7 Rydym hefyd wedi gweld gwrthdroad pwysig yn nhwf hirdymor y defnydd o staff asiantaeth a'r orddibyniaeth ar hynny. Mae canllawiau a rheolaethau gwell, cyfraddau is o ran absenoldeb oherwydd salwch a chynnydd o ran llenwi swyddi gwag wedi cyfrannu at ostwng gwariant ar staff asiantaeth o £325 miliwn yn 2022-23 i £262 miliwn yn 2023-24 (**Arddangosyn 1**). Fodd bynnag, mae cyrff iechyd yn parhau i ddibynnu ar staff asiantaeth i lenwi swyddi gwag, yn enwedig ym maes nyrsio.

Arddangosyn 1: defnydd o staff asiantaeth gan y GIG ledled Cymru gyfan, 2017 - 2024 (£ miliwn)



Ffynhonnell: Datganiadau Monitro Misol i Lywodraeth Cymru

8 Mae ein hadolygiadau lleol o gynllunio'r gweithlu hefyd yn dynodi bod sefydliadau wedi cryfhau eu ffocws ar weithgareddau cadw. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad ychwanegol a chynyddu'r defnydd o adborth gan staff i wella llesiant staff a'r amgylchedd gweithio. Mae'n debygol bod y gwaith hwn yn ffactor a gyfrannodd at ostwng lefelau trosiant staff rhwng 2022-23 a 2023-24. Serch hynny, roedd trosiant staff ar lefel Cymru gyfan yn 2023-24 ychydig o dan 2% yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig, gydag amrywiad sylweddol ar draws cyrff y GIG yng Nghymru. Ar adeg paratoi'r adroddiad hwn, roedd AaGIC yn arwain Rhaglen Gadw Cymru Gyfan, gan gyllido arweinwyr cadw ym mhob sefydliad ledled Cymru a chefnogi ystod o brosiectau gwella.

Er gwaethaf twf ar y cyfan mewn lefelau staffio, mae'r GIG yn ei chael yn anodd ateb y galw am wasanaethau ac yn parhau i fod â nifer sylweddol o swyddi gwag

9 Er bod gan y GIG y lefel staffio uchaf yn hanesyddol, mae cyrff iechyd hefyd yn ei chael hi'n anodd ateb y galw. Nid yw GIG Cymru'n cyrraedd y rhan fwyaf o'i dargedau 'mynediad' at wasanaethau ar hyn o bryd ac mae pwysau mewn gwasanaethau gofal heb ei drefnu, gofal a gynlluniwyd a gwasanaethau canser yn dal i fod yn sylweddol. Mae GIG Cymru'n nodi bod ganddo dros 5,000 o swyddi gwag Cyfwerth ag Amser Llawn (CagALl) ar hyn o bryd. Mae dros 10% o'r swyddi mewn gwasanaethau meddygol a deintyddol yn wag ar hyn o bryd. O'r cyfanswm o bron i 5,700 o swyddi gwag yng Nghymru, mae nyrsio'n gyfrifol am oddeutu traean o'r holl swyddi gwag.

10 Mae cyfran nodedig o feddygon (17% o'r rhai a ymatebodd i arolwg y Cyngor Meddygol Cyffredinol yng Nghymru) wedi cymryd 'camau caled' i adael y proffesiwn[3], gyda'r amgylchedd gweithio ffisegol a seilwaith digidol yn achosion allweddol. Mae GIG Cymru hefyd yn fwy dibynnol ar feddygon a hyfforddwyd y tu allan i'w ffiniau na'r tair gwlad arall ym Mhrydain ac yn gymharol mae Cymru'n cadw llai o'r meddygon y mae'n eu hyfforddi[4]. O ran y sefyllfa ym mis Rhagfyr 2024, mae 43% o'r meddygon a wnaeth eu prif gymhwyster meddygol yng Nghymru'n dal i fod yng Nghymru ar hyn o bryd. Yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, y ffigyrau cyfatebol ar gyfer meddygon sy'n aros yn y wlad y cawsant eu hyfforddi ynddi yw 94%, 61% a 76% yn y drefn honno[5]. O ystyried y pwysau ar staffio meddygol yn y GIG yng Nghymru, mae angen ystyried sut y gellir datblygu rhaglenni, lleoliadau a threfniadau cymorth addysg israddedig feddygol gyda'r nod o gadw mwy o'r meddygon a hyfforddwyd yng Nghymru, yn dilyn cwblhau'r cwrs (**Argymhelliad 1**). Yn fwy cadarnhaol, serch hynny, dylid nodi bod cyfraddau cadw hyfforddeion arbenigedd ôl-radd a hyfforddeion meddygaeth deulu yng Nghymru yn uwch.

3 Adroddiad y Cyngor Meddygol Cyffredinol: Cyflwr addysg ac ymarfer meddygol yn y DU.

4 Fe adroddodd ein Hadroddiad briffio ar ddata ynghylch Gweithlu'r GIG ar leoliad hyfforddi a lleoliad cofrestru cyfredol meddygon.

5 Dadansoddiad Archwilio Cymru o Offeryn archwilio data'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, a gyrchwyd ym mis Rhagfyr 2024.

11 Ceir rhai newidiadau a heriau mewn gofal sylfaenol hefyd. Mae nifer y partneriaid meddygaeth deulu'n gostwng ac, ar yr un pryd, mae Cymru'n gweld dibyniaeth gynyddol ar ddefnyddio staff locwm ar gyflog a thros dro ym maes meddygaeth deulu[6]. Hefyd, mae niferoedd cyffredinol yr ymarferwyr meddygaeth deulu Cyfwerth ag Amser Llawn wedi gostwng ychydig dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae meddygon teulu hefyd yn lleihau eu horiau gwaith wythnosol gyda'r data diweddaraf yn dynodi cyfrannau cynyddol o weithio'n rhan-amser. Nid yw'r heriau i bractisiau meddygaeth deulu'n gwbl gyfyngedig i feddygon teulu o ystyried y bydd 50% o'r nyrsys mewn practisiau'n cyrraedd neu'n mynd y tu hwnt i oedran ymddeol arferol yn y degawd nesaf[7].

12 Mae GIG Cymru wedi profi twf hirdymor mewn cyfraddau staffio a chostau cyflog (**Arddangosyn 2**)[8]. Os bydd y duedd hon yn parhau gallai niferoedd y staff Cyfwerth ag Amser Llawn gyrraedd dros 110,000 ac mae potensial y gallai'r costau cyflog staff cysylltiedig fynd y tu hwnt i £7 biliwn erbyn diwedd y degawd. Rhaid i gyflog staff yn y GIG fod yn ddigon i ddenu a chadw'r staff y mae ei angen arno, a rhaid i niferoedd staff fod yn ddigon i ateb y galw am wasanaethau. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd ariannol sy'n wynebu'r GIG ar hyn o bryd, mae'r twf posibl mewn costau cyflog a ddangosir yn **Atodiad 2** yn codi cwestiynau sy'n gryn her ynglŷn â fforddiadwyedd modelau gofal presennol.

6 Dadansoddiad o gynllun addysg a hyfforddiant AaGIC 2025-26. Cymeradwywyd y cynllun gan Fwrdd AaGIC ym mis Awst 2024.

7 Yn seiliedig ar yr oedran pensiwn arferol, sef 60, yn Adran 1995 o gynllun 1995/2008.

8 Mae costau cyflog ar y cyfan yn cynyddu yn ôl cyfradd uwch na lefelau staff. Y rheswm dros hyn yw bod twf costau cyflog ar y cyfan yn gyfuniad o lefelau staffio uwch ac effaith chwyddiant cyflog.

Arddangosyn 2: niferoedd staffio a chyfanswm costau cyflog y GIG (Rhagolwg gwirioneddol a llinol rhwng 2017 a 2030)



Ffynhonnell: dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

Mae'r dull cenedlaethol o fynd i'r afael â heriau o ran y gweithlu wedi mynd yn rhy gymhleth ac yn cael ei rwystro gan y diffyg cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu a pheth ansicrwydd ynghylch trefniadau arweinyddiaeth systemau

Er bod strategaeth genedlaethol eglur ar gyfer y gweithlu, mae ei gweithredu'n cael ei wneud yn fwy o her gan ystod gymhleth a heb ei hintegreiddio'n llawn o gynlluniau tanategol a pheth ansicrwydd ynghylch trefniadau arweinyddiaeth systemau

13 Mae GIG Cymru bedair blynedd i mewn i weithredu'r Strategaeth Gweithlu 10 mlynedd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (y strategaeth genedlaethol)[9]. Mae'r strategaeth genedlaethol yn eglur, yn rhesymegol ac yn feiddgar, gan nodi saith uchelgais sy'n gryn her ond y gellir eu gwireddu ochr yn ochr â chamau gweithredu cyfatebol. Mae'r strategaeth wedi darparu ffocws i siapio datblygiadau'n genedlaethol, yn enwedig mewn perthynas â gwaith Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

14 Er bod y pandemig wedi cael rhywfaint o effaith ar gyflawni'r strategaeth genedlaethol, ceir tystiolaeth bod AaGIC a'i bartneriaid yn gwneud peth cynnydd mewn rhai meysydd pwysig. Fe wnaeth adolygiad canol strategaeth[10] diweddar ddynodi'r cynnydd ar ystod o gamau gweithredu i ddatblygu 'talent' yng Nghymru, cryfhau arweinyddiaeth dosturiol, datblygu arweinwyr, a meithrin sgiliau a gallu digidol.

9 Cymru Iachach: ein strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

10 Cynhaliwyd yr adolygiad canol strategaeth i oleuo cyfarfod datblygu ar y cyd gan Fyrddau AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru ym mis Mai 2024

15 Mae'r strategaeth genedlaethol wedi'i bwriadu i ddarparu fframwaith arweiniol ar gyfer datblygu cynlluniau tanategol ar lefel genedlaethol. Mae'r dull strategol ar y cyfan o ymdrin â'r gweithlu bellach yn cynnwys y strategaeth genedlaethol, Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gweithlu sydd â ffocws penodol ar y GIG[11], a chynllun cyflawni newydd ar wahân ar gyfer y gweithlu Gofal Cymdeithasol[12]. Mae GIG Cymru, trwy waith a hwylusir gan AaGIC, hefyd wedi datblygu neu wrthi'n datblygu ystod o gynlluniau'r gweithlu sy'n cwmpasu proffesiynau a gwasanaethau penodol sy'n cynnwys gwasanaethau nyrsio, amenedigol, genomeg, iechyd meddwl, gofal sylfaenol (heb gynnwys fferylliaeth a deintyddiaeth), fferyllol a deintyddol. Mae'r cynlluniau hyn o gymorth i greu dull mwy cydlynol o fynd i'r afael â heriau o ran y gweithlu mewn rhai meysydd clinigol penodol. Fodd bynnag, mae'r ystod gynyddol o gynlluniau'n creu tirwedd gynllunio fwyfwy cymhleth. Ar ben hynny, mae gan rai gwasanaethau/proffesiynau gynlluniau'r gweithlu, ond nid oes gan eraill, ac fe geir diffyg eglurder pa un a fydd yr holl gynlluniau'n cael eu hariannu'n llawn gydag ansicrwydd cysylltiedig ynghylch y gallu i'w cyflawni.

16 Hefyd, mae gan yr ystod o gynlluniau'r gweithlu botensial i niwlo llinellau cyfrifoldeb sy'n gysylltiedig ag arweinyddiaeth ar gyfer y gweithlu. Ar gyfer cynllunio'r gweithlu'n strategol ar lefel genedlaethol yn y GIG, AaGIC yw'r sefydliad arweiniol, ond ceir sefydliadau eraill sydd â rolau ategol megis Llywodraeth Cymru a Chydwasanaethau'r GIG. Er bod cylchoedd gwaith a chyfrifoldebau arwahanol yn cael eu deall yn dda fel rheol, roedd y rhai y siaradom ni gyda hwy fel rhan o'r adolygiad hwn yn teimlo bod cyfrifoldebau'n gallu cael eu niwlo weithiau, a bod angen i rôl Gweithrediaeth y GIG gael ei diffinio'n well hefyd (**Argymhelliad 2**).

11 Datblygwyd Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gweithlu i gyflawni camau gweithredu ymarferol byrdymor a fydd yn gweithredu fel galluogwyr i gyflymu'r weledigaeth ddeng mlynedd.

12 Cyhoeddodd Gofal Cymdeithasol Cymru'r Cynllun cyflawni gweithlu gofal cymdeithasol 2024-27 ym mis Mehefin 2024

Mae angen un cynllun cenedlaethol hirdymor ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal yng Nghymru i sicrhau datrysiadau cynaliadwy i heriau cyfredol o ran y gweithlu

17 Mae amryw ddadansoddiadau wedi dangos y gall galw am wasanaethau sydd eisoes yn uchel gynyddu yn y dyfodol am bod disgwyl i ragor o bobl fyw yn hwy gydag afiachedd lluosog[13]. O ystyried maint ac ehangder yr heriau o ran y gweithlu sy'n wynebu gwasanaethau gofal iechyd, ceir dadl gref dros angen am gynllun cenedlaethol manwl a holistaidd ar gyfer y gweithlu i danategu Strategaeth genedlaethol y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (**Argymhelliad 3**).

18 Byddai cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu, a ategir gan ddadansoddiadau cadarn o'r cyflenwad a'r galw, yn galluogi GIG Cymru a'i bartneriaid i adnabod:

- sut y mae'n disgwyl pontio ei fodel ar gyfer y gweithlu a gwasanaethau i un a fydd wedi'i drefnu'n fwyfwy o safbwynt gwella iechyd y boblogaeth, hunanreoli, a rheoli afiacheddau lluosog yn y gymuned[14];
- sut y mae'n disgwyl paru a chynllunio ar gyfer y galw a'r cyflenwad yn y dyfodol lle mae gofal arbenigol yn y cwestiwn, gyda hynny'n cael ei ategu gan fodel staffio acíwt cynaliadwy;
- sut y mae model gweithlu cynaliadwy ar gyfer gofal cymdeithasol yn edrych fel rhan o ddull mwy integredig o gynllunio'r gweithlu;
- sut y mae'n addasu i ddewisiadau newidiol y gweithlu ar gyfer hyfforddi a gweithio'n rhan-amser a gyrfaoedd portffolio[15];
- sut y gallai sicrhau bod mwy o'r staff sy'n cael eu hyfforddi yng Nghymru'n aros yng Nghymru; ac
- anghenion addysgol manwl dros y tymor canolig a hir a'r cyllid sy'n angenrheidiol i gefnogi hynny.

13 Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth: Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy, archwiliad o effaith amcanestynedig cyflyrau hirdymor a ffactorau risg yng Nghymru.

14 Mae morbidrwydd lluosog yn ymwneud â phobl yn byw gyda mwy nag un cyflwr iechyd hirdymor.

15 Mae gyrfaoedd portffolio'n derm am bobl sydd â mwy nag un swydd ran-amser neu sy'n symud o un swydd i'r llall ar sail fyrdymor neu hyblyg.

19 Fe ymrwymodd Llywodraeth Cymru i lunio dull o ddatblygu cynllun gweithlu hirdymor ar gyfer iechyd a gofal, gan weithio gydag AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru. Fodd bynnag, mae diweddariadau diweddar yn awgrymu mai cyfyngedig fu'r cynnydd. Ar ben hynny, nid yw datblygu cynllun ar gyfer y gweithlu'n rhywbeth y gall AaGIC nac uwch arweinwyr ehangach y gweithlu ei lywio ar wahân. Mae angen bod rolau achyfrifoldebau eglur ar gyfer ei ddatblygu, a dull amlbartner integredig i'w gyflawni. Dylai hyn gynnwys cynrychiolaeth o feysydd gofal cymdeithasol, addysg uwchradd ac addysg uwch, a chynrychiolwyr o'r proffesiwn clinigol. Unwaith y bydd wedi'i ddatblygu, dylai'r cynllun cenedlaethol ddod yn rhan o ddull ailadroddol o gynllunio'r gweithlu, sy'n ei alluogi i esblygu i adlewyrchu newidiadau yn y galw a ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau.

Mae'r Bwrdd Gweithredu Strategol ar gyfer y Gweithlu wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'i gamau gweithredu, ond mae effaith y rhain ar y cyfan yn aneglur ac mae ansicrwydd ynghylch rôl y Bwrdd yn y dyfodol

20 Ym mis Ionawr 2023, yn dilyn ymrwymiad yn y 'rhaglen ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru', fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu (y Cynllun). Roedd hwn wedi'i fwriadu i ymdrin â rhai o'r heriau uniongyrchol a phenodol o ran y gweithlu sy'n wynebu GIG Cymru. Ym mis Ebrill 2023, fe sefydlodd Llywodraeth Cymru'r Bwrdd Gweithredu Strategol ar gyfer y Gweithlu i oruchwylio'r broses o gyflawni'r Cynllun. Roedd pedwar sefydliad yn bennaf gyfrifol am gyflawni'r cynllun gweithredu; Llywodraeth Cymru, AaGIC, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Cyflogwyr y GIG. Roedd rhanddeiliaid yn canmol y ffordd yr oedd Bwrdd Gweithredu Strategol y Gweithlu'n cael ei redeg i raddau helaeth, gan nodi cyfarfodydd a oedd yn cael eu cadeirio'n dda a'u bod yn cael y cyfle i gyfrannu eu barn. Er bod trefniadau atebolrwydd ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu yn y cynllun yn eglur, ni fu unrhyw adroddiadau cyhoeddus i ddynodi i ba raddau y mae'r Cynllun wedi cael ei gyflawni, sydd wedi cyfyngu ar ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid ehangach am yr hyn a gyflawnwyd.

21 Yn wreiddiol roedd y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu'n cynnwys 78 o gamau gweithredu[16]. O ran y sefyllfa ym mis Medi 2024, roedd yr holl gamau gweithredu wedi cael eu gwblhau i raddau helaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno adroddiad cynnydd diwedd blwyddyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac, ar adeg llunio'r adroddiad hwn, roedd yn disgwyl am benderfyniad ynglŷn â dyfodol y Bwrdd Gweithredu Strategol ar gyfer y Gweithlu[17]. Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd Gweithredu Strategol ar gyfer y Gweithlu wedi cymryd saib, ac roedd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid ar y nifer fach o gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau.

22 Os mesurir hynny'n gyfan gwbl ar sail cyflawnrwydd y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu, mae'r Bwrdd Gweithredu Strategol ar gyfer y Gweithlu wedi cyflawni ei ymrwymiadau bwriadedig i raddau helaeth. Yn nodedig, roedd aelodau o'r Bwrdd Gweithredu Strategol ar gyfer y Gweithlu'n teimlo bod y cynllun a'r Bwrdd yn helpu i ganlyn arni â chamau gweithredu na fyddid wedi canlyn arni â hwy fel arall o bosibl. Hyd yma, cyfyngedig fu'r adrodd gwerthusol ar effaith camau gweithredu'r Cynllun. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd deall a yw'r camau gweithredu wedi gwneud unrhyw wahaniaeth go iawn o ran lleihau lefel y risgiau mewn perthynas â'r gweithlu a wynebir yn genedlaethol ac yn lleol. Fodd bynnag, ar adeg llunio'r adroddiad hwn roedd swyddogion Llywodraeth Cymru'n coladu astudiaethau achos mewn adroddiad i ddangos yr effaith y mae'r camau gweithredu wedi'i chael.

16 Yn ystod y cyfnod y bu'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu'n cael ei gyflawni bu ychydig o ddiweddariadau, y cytunwyd arnynt trwy'r Bwrdd Gweithredu Strategol ar gyfer y Gweithlu, megis camau gweithredu ychwanegol a geiriad wedi'i ddiweddaru.

17 Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu'n gynllun byrdymor gyda chamau gweithredu'n rhychwantu 18 mis hyd at 2024.

Mae cynllunio Gweithlu'r GIG yn cael ei wneud yn anos gan ddiffyg eglurder ynghylch modelau gwasanaeth yn y dyfodol, bylchau yn y data ac arbenigedd cynllunio'r gweithlu a chyfyngiadau ar nifer y lleoedd hyfforddi y gellir eu comisiynu

Mae cynllunio Gweithlu'r GIG yn cael ei wneud yn anos gan ddiffyg eglurder ynghylch modelau gwasanaeth yn y dyfodol

23 Nid yw'n bosibl datblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu heb ddealltwriaeth glir am fodelau gwasanaeth hirdymor yn y dyfodol. Ar lefelau cenedlaethol a lleol, canfuom nad oedd uchelgeisiau lefel-uchel mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu'n seiliedig ar ddealltwriaeth ymarferol am sut y byddai gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu trefnu yn y tymor canolig a hir. Mae hon yn her benodol mewn cyrff iechyd unigol lle canfu ein gwaith archwilio lleol fod diffyg eglurder ynghylch modelau gwasanaeth yn y dyfodol yn rhwystr sylweddol i gynllunio'r gweithlu.

24 Yn genedlaethol, mae angen dealltwriaeth well am sut y bydd y dyheadau ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol a nodir yn 'Cymru Iachach' yn trosi'n gamau pendant i ailddylunio gwasanaethau. Er enghraifft:

- y gwasanaethau sy'n ofynnol i helpu'r cyhoedd i reoli eu hiechyd eu hunain;
- sut y bydd angen i wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol ddatblygu i ofalu am gyfran gynyddol o'r boblogaeth sydd â chyflyrau hirdymor ac afiacheddau lluosog;
- sut y bydd angen i wasanaethau acíwt addasu i ddarparu'r gofal arbenigol y mae ei angen yng nghyd-destun datblygiadau mewn meddygaeth a thechnoleg ond hefyd cyfyngiadau yn argaeledd staff arbenigol; a hefyd
- y gallu a'r capasiti o ran y gweithlu sy'n ofynnol i gefnogi'r newidiadau hyn, gan gynnwys datblygu sgiliau digidol a gwybodeg o fewn y gweithlu.

Mae cynllunio'r gweithlu o fewn cyrff iechyd unigol yn gwella ond yn cael ei rwystro gan fylchau mewn data ac arbenigedd cynllunio'r gweithlu a chan gyfyngiadau ar nifer y lleoedd hyfforddi y gellir eu comisiynu

25 Mae cynllunio'r gweithlu'n gadarn yn ddibynnol ar sefyllfa lle mae sefydliadau'n meddu ar y sgiliau, yr adnoddau a'r wybodaeth i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'r strategaeth genedlaethol yn cydnabod yr angen i gynyddu'r capasiti a'r gallu ar gyfer cynllunio'r gweithlu[18]. Mae ein hadolygiadau lleol o gynllunio'r gweithlu'n dangos bwriad clir ar draws GIG Cymru i wneud hyn. Canfuom enghreifftiau da o strategaethau'r gweithlu mewn cyrff iechyd unigol a oedd yn cydnabod yr heriau o ran y gweithlu yn y tymor byr a hwy a wynebir gan y cyrff iechyd hynny. Fodd bynnag, roedd strategaethau'r gweithlu o fewn cyrff iechyd yn nodweddiadol yn rhai lefel-uchel ac yn aml heb gynlluniau cyflawni wedi'u costio i'w tanategu. Mae diffyg cynlluniau tanategol ochr yn ochr â'r pwysau uniongyrchol o ran y gweithlu y mae cyrff iechyd yn eu hwynebu'n ysgogi dull byrdymor o ymdrin â heriau o ran y gweithlu ar draul cynllunio'r gweithlu'n fwy cynaliadwy dros y tymor canolig a hir. Mae'n peri gofid, ar adeg ein harchwiliad ni, nad oedd gan lawer o gyrff iechyd yng Nghymru sefydliadau gweithlu a oedd wedi'u cytuno ac yn cael eu hariannu[19]. O sefyllfa wael y llynedd, mae cyrff iechyd bellach yn gweithio tuag at ddatblygu sefydliadau gweithlu y cytunwyd arnynt ac a ariennir.

26 Mae AaGIC yn helpu i ddatblygu sgiliau cynllunio'r gweithlu trwy hyfforddiant, canllawiau a datblygu offer, y mae'r rhan fwyaf o gyrff iechyd yn eu cefnogi ac yn eu mabwysiadu. Fodd bynnag, canfu ein gwaith archwilio lleol fod capasiti ar gyfer cynllunio'r gweithlu mewn cyrff iechyd dan bwysau, gyda gallu cyfyngedig i fod â staff yr oedd eu rolau wedi'u neilltuo i raddau helaeth i gynllunio'r gweithlu. Yn aml roedd partneriaid busnes adnoddau dynol yn darparu capasiti i roi cymorth i gynllunio'r gweithlu, ond roedd hyn hefyd yn gyfyngedig o ystyried yr angen i ymdrin â materion adnoddau dynol pob dydd. Er mwyn i GIG Cymru allu gwireddu'r uchelgeisiau a nodir yn ei strategaeth ar gyfer y gweithlu, mae angen dealltwriaeth well am y sgiliau a'r capasiti ar gyfer cynllunio'r gweithlu, yn y gymuned Datblygu'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, ac ymhlith rheolwyr gwasanaethau gweithredol, y mae eu hangen i gyflawni hyn.

18 Strategaeth Gweithlu 10 mlynedd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cam Gweithredu 29: Meithrin capasiti a gallu o ran cynllunio a datblygu'r gweithlu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, a danategir gan fethodoleg safonol

19 Sefydliad gweithlu yw'r term ar gyfer lefelau'r gweithlu, rolau staff a'r bandiau yn Agenda ar gyfer Newid y GIG y cyllidebir yn ariannol ar eu cyfer.

27 Mae'r strategaeth genedlaethol yn amlygu'r angen i wella cudd-wybodaeth am y gweithlu a cheir tystiolaeth bod GIG Cymru'n cymryd rhai camau cadarnhaol i wella ei ddata ar y gweithlu. Mae AaGIC wedi sefydlu Arsyllfa Gweithlu sy'n lletya data ar y gweithlu a dadansoddiadau i gyrff iechyd gael mynediad atynt. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd i lenwi bylchau yn y data ar y gweithlu mewn meysydd penodol megis gofal sylfaenol ac is-arbenigeddau meddygol a nyrsio. Mae angen data rhagweld gwell hefyd i ddod â golwg dymor hwy i GIG sy'n aml yn cael ei ddenu i ymdrin â'r heriau byrdymor uniongyrchol (**Argymhelliad 4**).

28 Er eu bod yn nodi'r twf o un flwyddyn i'r llall o ran comisiynu addysg dros y pum mlynedd ddiwethaf, fe gododd cyrff iechyd bryderon nad yw nifer y lleoedd addysg a hyfforddiant y mae AaGIC yn eu comisiynu'n diwallu'r angen a nodwyd yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (CTCI). Yn 2024-25 dim ond 60% o niferoedd y myfyrwyr nyrsio y gofynnwyd amdanynt gan gyrff iechyd yn eu CTCI a gomisiynwyd. Digwyddodd hyn o ganlyniad i nifer y lleoedd ar y cyfan y gallai AaGIC fforddio eu comisiynu, y capasiti yn y GIG a phrifysgolion i leoli myfyrwyr, a nifer y ceisiadau i raglenni hyfforddi. Dim ond gwelliant bach iawn a ddisgwylir yn y sefyllfa yn 2025-26. Mae'r mater hwn yn fwyaf amlwg ar gyfer comisiynu addysg nyrsio ond mae hefyd yn her gydnabyddedig i broffesiynau clinigol ehangach. Mae AaGIC yn disgwyl na fydd rhaglenni hyfforddi mewn rhai meysydd arbenigol yn ddigon i ateb y galw disgwyliedig am wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys arbenigeddau Wroleg, Fasgwlaidd, Offthalmoleg, Haematoleg, Cardioleg, Dermatoleg, Diabetes ac endocrinoleg. Ceir risg go iawn hefyd y gallai lefelau hyfforddi meddygon teulu yng Nghymru syrthio ymhell y tu ôl i'r GIG yn Lloegr os bydd y niferoedd a addewir yng Nghynllun Hirdymor y GIG yn Lloegr ar gyfer y Gweithlu'n dod yn ffaith[20]. Gallai hyn effeithio ar y gallu i recriwtio i mewn i leoedd hyfforddi meddygon teulu ar y lefelau gofynnol yng Nghymru (**Argymhelliad 1**).

20 Mae cynllun hirdymor y GIG yn Lloegr ar gyfer y gweithlu'n amcanu at gynyddu nifer y lleoedd hyfforddi ar gyfer yr arbenigedd meddygaeth deulu i 5,000 erbyn 2027-28 ac i 6,000 erbyn 2031-32.

Argymhellion

Argymhellion

A1 Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a, lle y bo angen, cryfhau'r trefniadau cenedlaethol ar gyfer comisiynu addysg i israddedigion meddygol yng Nghymru gan amcanu at:

- sicrhau bod nifer y meddygon sy'n hyfforddi'n cyd-fynd ag anghenion staffio meddygol a ragwelir; ac
- adnabod pa gamau ychwanegol ellir eu cymryd i annog y rhai sy'n hyfforddi i aros yng Nghymru ar ôl ennill eu cymhwyster.

Gweler **paragraffau 9**, **10** a **27**.

A2 Dylai Llywodraeth Cymru eglurhau trefniadau arweinyddiaeth ar gyfer gweithlu'r GIG ar lefel genedlaethol trwy nodi'n glir beth yw priod gylchoedd gwaith Llywodraeth Cymru, Addysg a Gwella lechyd Cymru a Gweithrediaeth y GIG. Gweler **paragraff 15**.

A3 Dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gydag AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru, arwain datblygiad cynllun cenedlaethol tymor hwy ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal sy'n ceisio gosod y gweithlu ar sylfaen fwy cynaliadwy. Gan adeiladu ar y gwaith i gynllunio'r gweithlu sydd eisoes yn cael ei wneud mewn disgyblaethau a meysydd gwasanaeth penodol, dylai'r cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu gael ei oleuo gan waith i fodelu'r cyflenwad a'r galw a dylai fod yn rhan o ddull ailadroddus o gynllunio'r gweithlu sy'n ei gwneud yn bosibl i'r cynllun cenedlaethol esblygu i adlewyrchu newidiadau yn y galw a ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau a darparu mecanwaith i gytuno ar adnoddau ariannol ac adnoddau eraill i roi cymorth i'w gyflawni. Gweler **paragraff 16**.

A4 Dylai AaGIC arwain gwaith yn GIG Cymru sydd wedi'i fwriadu i gryfhau data ar y gweithlu i sicrhau ei fod yn ddigon i'w gwneud yn bosibl datblygu cynlluniau cenedlaethol a lleol ar gyfer y gweithlu. Dylai hyn ganolbwyntio'n arbennig ar ddata ar lefel is-arbenigeddau meddygol a nyrsio a data ar y gweithlu gofal sylfaenol.
Gweler **paragraff 26**.

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

2 Dolenni i adolygiadau lleol o'r gweithlu a gyhoeddwyd

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas, amcanion a meini prawf yr archwiliad

Yn dilyn cyhoeddi ein Hadroddiad Briffio ar Ddata ynghylch Gweithlu'r GIG ym mis Medi 2023, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cwblhau adolygiadau o drefniadau cynllunio'r gweithlu ym mhob un o 12 corff y GIG yng Nghymru. Fe wnaeth yr adolygiadau hynny archwilio pa un a oedd dulliau cyrff y GIG o gynllunio'r gweithlu'n helpu i fynd i'r afael â'r heriau yn awr ac yn y dyfodol o ran gweithlu'r GIG. Fe roddodd pob un o'r 12 adolygiad sylw i'r canlynol:

- dull strategol corff y GIG o gynllunio'r gweithlu;
- camau gweithredol i reoli ei heriau o ran y gweithlu yn awr ac yn y dyfodol; a hefyd
- trefniadau monitro a goruchwylio mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu.

Mae canfyddiadau ein gwaith ym mhob un o gyrff y GIG wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Archwilio Cymru. Mae **Atodiad 2** yn darparu dolenni i bob un o'r adroddiadau sy'n nodi ein canfyddiadau archwilio yn erbyn cwestiynau allweddol a meini prawf sy'n cyd-fynd â'r tri maes ffocws uchod. Dylid nodi na wnaeth yr adolygiad archwilio trefniadau rheoli'r gweithlu gweithredol megis amserlennu dyletswyddau staff/nyrsys a chynllunio swyddi meddygon ymgynghorol.

Ochr yn ochr â'n hadolygiadau o gynllunio'r gweithlu ym mhob un o gyrff y GIG yng Nghymru, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi archwilio effeithiolrwydd y trefniadau arweinyddiaeth ar lefel genedlaethol ar gyfer ymdrin â'r heriau o ran y gweithlu y mae'r GIG yn eu profi. Roedd y gwaith hwnnw'n ceisio asesu:

- a oes cyfeiriad strategol cenedlaethol eglur i ymdrin â'r heriau allweddol o ran y gweithlu sy'n wynebu'r GIG;
- a oes rhaglen effeithiol o waith i gyflawni'r cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer gweithlu'r GIG; ac
- a oedd arweinyddiaeth systemau eglur ac effeithiol ar gyfer materion y gweithlu o fewn GIG Cymru.

Dulliau archwilio

Daw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn o'r dulliau a ddangosir isod.

Dull archwilio	Disgrifiad
Adolygu dogfennau	Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys: • Strategaeth gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol • Adroddiadau ar gynnydd gyda Strategaeth Genedlaethol y Gweithlu • Cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu • Agenda, papurau a chofnodion y Bwrdd Gweithredu Strategol ar gyfer y Gweithlu • Strategaethau gweithlu proffesiynau a meysydd gwasanaeth
Cyfweliadau	Fe wnaethom gyfweld â'r canlynol: • Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Adran Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar / Prif Weithredwr, GIG Cymru • Dirprwy Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Llywodraeth Cymru • Prif Weithredwr, Addysg a Gwella Iechyd Cymru • Cadeirydd, Addysg a Gwella Iechyd Cymru • Cyfarwyddwr Gweithredol y Coleg Nyrsio Brenhinol yng Nghymru • Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfathrebu ac Ymchwil Polisi, Coleg Brenhinol y Ffisegwyr • Prif Weithredwr, Gofal Cymdeithasol Cymru • Cyfarwyddwr, Cyflogwyr y GIG • Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol mewn 2 Fwrdd Iechyd
Dadansoddi data	Fe wnaethom ddadansoddi data allweddol ar: • Heriau o ran y gweithlu gweithredol megis lefelau staffio a swyddi gwag, defnydd o staff asiantaeth ac absenoldeb oherwydd salwch • Tueddiadau o ran y gweithlu yn GIG Cymru ac mewn gofal sylfaenol • Tueddiadau yn y galw am wasanaethau a dadansoddiad o ddemograffeg y boblogaeth
Dadansoddiad o ganfyddiadau archwilio lleol	Fe wnaethom gwblhau dadansoddiad thematig o ganfyddiadau ein hadolygiadau o gynllunio'r gweithlu ym mhob un o 12 corff y GIG yng Nghymru

2 Dolenni i adolygiadau lleol o'r gweithlu a gyhoeddwyd

Ein hadolygiadau o drefniadau cynllunio'r gweithlu yng nghyrff unigol y GIG

Corff iechyd	Dolen i'r cyhoeddiad	
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Saesneg	Cymraeg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Saesneg	Cymraeg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Saesneg	Cymraeg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	Saesneg	Cymraeg
Iechyd a Gofal Digidol Cymru	Saesneg	Cymraeg
Addysg a Gwella Iechyd Cymru	Saesneg	Cymraeg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Saesneg	Cymraeg
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Saesneg	Cymraeg
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru	Saesneg	Cymraeg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	Saesneg	Cymraeg
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	Saesneg	Cymraeg
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	Saesneg	Cymraeg

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.